# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11171

# 316

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf rhithwir, gyda Aelodau yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

Rhun ap Iorwerth (Ynys Mon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynllun brechu yn erbyn COVID-19 yng Nghymru yn dilyn adroddiadau mai polisi Llywodraeth Cymru yw dosbarthu'r cyflenwad presennol o frechiadau yn raddol yn hytrach nac anelu i frechu cymaint o bobl â phosib yn y cyfnod byrraf posib?

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.53

Gofynnwyd cwestiwn 1 a chwestiynau 3-9. Cafodd cwestiynau 3 a 7 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Ni ofynnwyd cwestiwn 2. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.57

## 3 Datganiad gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion Terfynol Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.15

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Papur Gwyn ar y Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau

Dechreuodd yr eitem am 16.12

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Addysg: Adroddiad Blynyddol Estyn 2019/20

Dechreuodd yr eitem am 16.45

## 6 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021

Dechreuodd yr eitem am 17.26

**NDM7546** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2021.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Dechreuodd yr eitem am 17.35

**NDM7545** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2021.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.44

**NDM7544** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) Adrannau 1 – 3;

b) Atodlen 1;

c) Adrannau 4 – 6;

d) Atodlen 2;

e) Adrannau 7 – 10;

f) Atodlen 3;

g) Adran 11;

h) Atodlen 4;

i) Adrannau 12 – 14;

j) Atodlen 5;

k) Adrannau 15 – 16;

l) Atodlen 6;

m) Adrannau 17 – 18;

n) Teitl hir.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Cyfnod pleidleisio

Ni chafwyd cyfnod pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.45

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 20 Ionawr 2021**